Trawsfynydd Site Stakeholder Group (SSG)
Emergency Arrangements Report – June 2017

Changes since last meeting

The ONR approved the Contingency Arrangements and issued a Licence Instrument to implement the new procedures during April this year.

The Emergency Control Centre (ECC) has been replaced with an Incident Response Centre (IRC) in Pen-Y-Bryn. The administration block has now been demolition.

Emergency Planning Consultative Committee meeting

Simon Dawson attended the meeting on the 14th March 2017 and presented a summary of the report is presented below.

In preparation for the Contingency Arrangements, the site started to look at contingency arrangements and tried to embody them into the exercise scenarios and identify at what learning will inform requirements for the new procedures.

The first exercise that engaged the emergency services was in April 2016 where North Wales Fire and Rescue attended an incident at the admin block. The exercise involved a number of casualties and was considered a great success. Prior to the exercise, notifications went out to the local press and posted on the site website to inform local residents about the event and not to be alarmed if by the activities, etc. that might be observed during the period. The attendance of the Fire Service was very much appreciated by all stakeholders.

The contingency arrangements rely heavily on sub-contract teams being self-contained and able to respond to an incident in their area. Contractors across site have been assessed and their individual rescue plans tested with very positive results.

Exercises were developed further throughout the year with scenarios becoming more challenging to ensure all teams and personnel are fully conversant with the supporting response plans.

Site Exercises

An intensive Contingency Exercise Campaign took place throughout October and November culminating in an Observed Exercise on the 30th November which demonstrated the Sites capabilities of dealing with an incident under Contingency Arrangements.

Trawsfynydd Site hosted its Annual Exercise Demonstration in June 2016. The ONR Site Inspector delegated the assessment to the Magnox Independent Assurance Team and this will now assess site exercises once every 3years rather than annually. The Magnox Independent Assurance Team considered the arrangements to be adequate and highlighted only minor learning points.

The site continues to deliver a schedule of regular exercises to embed the new arrangements and test the response plans.

Planning for this year's annual exercise has begun with a proposed period of August 2017.

Look ahead

Trawsfynydd is one of two sites that are leading the organisation to withdraw 24/7 shift operations in September 2017. This will result in only the security team being available on site during silent hours. Due to the reducing radiological risk on site, the justification to make this change has been made and endorsed by the Magnox Executive.

The Regulators are supportive of the proposed change providing the transition does not compromise the requirements for safe and secure site operations. Liaison with the local emergency services has also confirmed that there are no barriers to the proposed change.

In support of the changes, a revised set of Contingency Arrangements is now being developed and will be trialled before a demonstration exercise during the summer of 2017.

Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd (SSG)
Adroddiad ar Drefniadau Argyfwng - Mehefin 2017

Newidiadau ers y cyfarfod diwethaf

Mae'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear (ONR) wedi cymeradwyo'r Trefniadau Wrth Gefn ac wedi cyhoeddi Offeryn Trwydded i roi'r gweithdrefnau newydd ar waith yn ystod mis Ebrill eleni.

Mae'r Ganolfan Rheoli Argyfwng (ECC) wedi cael ei disodli â Chanolfan Ymateb i Ddigwyddiadau (IRC) ym Mhen-y-Bryn. Mae'r bloc gweinyddol bellach wedi cael ei ddymchwel.

Cyfarfod y Pwyllgor Ymgynghorol ar Gynlluniau Argyfwng

Roedd Simon Dawson yn bresennol yn y cyfarfod ar 14eg Mawrth 2017 ac mae wedi cyflwyno crynodeb o'r adroddiad isod.

Er mwyn paratoi ar gyfer y Trefniadau Wrth Gefn, dechreuodd y safle edrych ar drefniadau wrth gefn a cheisio eu hymgorffori i'r sefyllfaoedd ymarfer a chanfod pa wersi y gellir eu dysgu er mwyn llywio'r gofynion ar gyfer y gweithdrefnau newydd.

Cynhaliwyd yr ymarfer cyntaf gyda'r gwasanaethau brys ym mis Ebrill 2016 lle'r oedd gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn bresennol mewn digwyddiad yn y bloc gweinyddol. Roedd yr ymarfer yn canolbwyntio ar nifer o ddamweiniau a chafodd ei ystyried yn llwyddiant ysgubol. Cyn yr ymarfer, anfonwyd hysbysiadau i'r wasg leol a chafodd negeseuon eu postio ar wefan y safle i roi gwybod i drigolion lleol am y digwyddiad ac iddynt beidio â dychryn yn sgil y gweithgareddau ac ati y gallant fod wedi sylwi arnynt yn ystod y cyfnod. Roedd yr holl randdeiliaid yn gwerthfawrogi presenoldeb y Gwasanaeth Tân yn fawr iawn.

Mae'r trefniadau wrth gefn yn dibynnu'n drwm ar dimau is-gontractio sy'n hunangynhaliol ac yn gallu ymateb i ddigwyddiad yn eu hardal. Mae contractwyr ar draws y safle wedi cael eu hasesu ac mae eu cynlluniau achub unigol wedi cael eu profi a gwelwyd canlyniadau cadarnhaol iawn.

Cafodd yr ymarferion eu datblygu ymhellach drwy gydol y flwyddyn gyda'r senarios yn dod yn fwy heriol er mwyn sicrhau bod yr holl dimau a phersonél yn gwbl gyfarwydd â'r cynlluniau ymateb atodol.

Ymarferion ar y Safle

Cynhaliwyd Ymgyrch Ymarfer Wrth Gefn dwys drwy gydol mis Hydref a Thachwedd a daeth i ben mewn Ymarfer Arsylwi ar 30ain Tachwedd a oedd yn dangos gallu'r Safle i ddelio â digwyddiad yn unol â'r Trefniadau Wrth Gefn.

Cynhaliodd Safle Trawsfynydd ei Ymarfer Arddangos Blynyddol ym mis Mehefin 2016. Fe wnaeth Arolygydd Safle'r ONR ddirprwyo'r asesiad i Dîm Sicrwydd Annibynnol Magnox a bydd y tîm hwn nawr yn asesu ymarferion y safle unwaith bob tair blynedd yn hytrach na bob blwyddyn. Roedd Tîm Sicrwydd Annibynnol Magnox o'r farn bod y trefniadau'n ddigonol a dim ond mân bwyntiau dysgu y tynnodd sylw atynt.

Mae'r safle yn parhau i gyflwyno amserlen o ymarferion rheolaidd er mwyn ymgorffori'r trefniadau newydd a phrofi'r cynlluniau ymateb.

Mae'r gwaith trefnu ar gyfer ymarfer blynyddol eleni wedi dechrau gyda chyfnod arfaethedig ym mis Awst 2017.

Edrych ymlaen

Mae Trawsfynydd yn un o ddau safle sy'n arwain y sefydliad i gael gwared ar weithrediadau sifft 24/7 ym mis Medi 2017. Bydd hyn yn golygu mai dim ond y tîm diogelwch fydd ar gael ar y safle yn ystod oriau tawel. Gan fod y risg radiolegol ar y safle yn llai, mae modd cyfiawnhau'r penderfyniad i gyflwyno'r newid hwn ac mae Gweithrediaeth Magnox wedi'i gymeradwyo.

Mae'r Rheoleiddwyr yn cefnogi'r newid arfaethedig ar yr amod nad yw'r broses drawsnewid yn peryglu'r gofynion o ran gweithrediadau diogel ar y safle. Mae trafodaethau â'r gwasanaethau brys lleol hefyd wedi cadarnhau nad oes rhwystrau o ran y newid arfaethedig.

I gefnogi'r newidiadau, mae cyfres ddiwygiedig o Drefniadau Wrth Gefn nawr yn cael eu llunio a byddant yn cael eu treialu cyn yr ymarfer arddangos yn ystod haf 2017.